



FUNDRAISING
REGULATOR

YR ADDEWID CODI ARIAN

Mae'r addewid hon yn amlinellu'r **ymrwymiad a wneir i roddwyr a'r cyhoedd gan sefydliadau codi arian sy'n cofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian**. Mae'r rhai sy'n cofrestru gyda'r rheoleiddiwr yn cytuno i sicrhau bod eu dulliau codi arian yn gyfreithiol, yn agored, yn onest ac yn barchus.

Mae'r safonau ar gyfer codi arian yn cael eu hamlinellu yn y Cod Ymarfer Codi Arian.

BYDDWN YN YMRWYMO I SAFONAU UCHEL

- Byddwn yn dilyn y Cod Ymarfer Codi Arian
- Byddwn yn monitro codwyr arian, gwirfoddolwyr a thrydydd partïon sy'n gweithio gyda ni i godi arian, i sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Codi Arian a'r Addewid hon.
- Byddwn yn cydymffurfio â'r gyfraith fel y bo'n gymwys i elusennau a chodi arian.
- Byddwn yn arddangos y bathodyn Rheoleiddiwr Codi Arian ar ein deunyddiau codi arian i ddangos ein bod wedi ymrwymo i arferion da.

BYDDWN YN GLIR, YN ONEST AC YN AGORED

- Byddwn yn dweud y gwir ac ni fyddwn yn gor-ddweud.
- Byddwn yn gwneud yr hyn y dywedwn y byddwn yn ei wneud gyda'r rhoddion a gawn.
- Byddwn yn glir ynghylch pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud.
- Byddwn yn rhoi esboniad clir o sut y gallwn wneud rhodd a newid rhodd reolaidd.
- Os gofynnwn i drydydd parti godi arian ar ein rhan, byddwn yn gwneud y berthynas hon a'r trefniadau ariannol yn dryloyw.
- Byddwn yn gallu esbonio ein costau codi arian a dangos sut maent er lles gorau ein hachos os caiff eu herio.

- Byddwn yn sicrhau bod ein proses gwyno yn glir ac yn hygyrch.
- Byddwn yn rhoi rhesymau clir, seiliedig ar dystiolaeth am ein penderfyniadau am gwynion.

BYDDWN YN BARCHUS

- Byddwn yn parchu eich hawliau a'ch preifatrwydd.
- Ni fyddwn yn rhoi gormod o bwysau arnoch i wneud rhodd. Os nad ydych am roi neu rydych am roi'r gorau i roi, byddwn yn parchu eich penderfyniad.
- Bydd gweithdrefn gennym yn ei le ar gyfer delio â phobl mewn amgylchiadau agored i niwed a bydd ar gael ar gais.
- Os yw'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol, byddwn yn ceisio eich cydsyniad cyn cysylltu â chi i godi arian.
- Os dywedwch wrthym nad ydych am i ni gysylltu â chi mewn ffordd arbennig ni fyddwn yn gwneud hynny. Byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn, Post a Chodi Arian i sicrhau nad yw'r rhai sy'n dewis peidio â derbyn mathau penodol o ddogfennau cyfathrebu yn eu cael.

BYDDWN YN DEG AC YN RHESYMOL

- Byddwn yn trin rhoddwyr a'r cyhoedd yn deg, gan ddangos sensitifrwydd ac addasu ein hymagwedd yn dibynnu ar eich anghenion.
- Byddwn yn gofalu i beidio â defnyddio unrhyw ddelweddau neu eiriau sy'n achosi gofid neu bryder yn fwriadol.
- Byddwn yn gofalu i beidio ag achosi niwsans neu amharu ar y cyhoedd.

BYDDWN YN ATEBOL AC YN GYFRIFOL

- Byddwn yn rheoli ein hadnoddau mewn modd cyfrifol ac yn ystyried effaith ein codi arian ar ein rhoddwyr, ein cefnogwyr a'r cyhoedd.
- Os ydych yn anhapus gydag unrhyw beth rydym wedi'i wneud wrth godi arian, gallwch gysylltu â ni trwy wneud cwyn. Byddwn yn gwrando ar adborth ac yn ymateb yn briodol i'r cwynion a'r feirniadaeth a gawn.
- Bydd trefn gwyno gennym, a bydd copi ohoni ar gael ar ein gwefan neu bydd ar gael ar gais.
- Bydd ein trefn gwyno yn rhoi gwybod i chi sut i gysylltu â'r Rheoleiddiwr Codi Arian os teimlwch fod ein hymateb yn anfoddhaol.
- Byddwn yn monitro ac yn cofnodi nifer y cwynion a gawn bob blwyddyn ac yn rhannu'r data hwn gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian ar gais.